




Gwaith adeiladu, ailosodiadau ac atgyweirio eich cartref

Darllenwch hwn cyn dechrau unrhyw waith

Mae'r Rheoliadau Adeiladu wedi cael eu llunio i sicrhau bod adeiladau newydd yn bodloni safonau iechyd, diogelwch, cyfleustra a chynaliadwyedd. Maen nhw'n ymwneud yn benodol â chodi adeilad, yn wahanol i ganiatâd cynllunio, sy'n ymwneud a ddylid codi'r adeilad o gwbl.



Beth wnaiff ddigwydd os na fyddaf yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu?

- Os na wnewch gydymffurfio, ni fydd y gwaith yn gyfreithlon. Gallech gael eich erlyn a wynebu dirwy o hyd at £5000.
- Efallai na fydd y gwaith yn ddiogel, gallai achosi problemau iechyd, anafiadau neu hyd yn oed marwolaeth. Efallai na fydd yn cyflawni safonau effeithlonrwydd ynni chwaith.
- Os canfyddir fod y gwaith yn ddiffygiol, gallai eich Awdurdod Lleol fynnu eich bod yn ei unioni o'ch piced eich hun.
- Os na hysbysir y Corff Rheoli Adeiladu am y gwaith neu os caiff ei wneud gan osodwr sydd heb ei gofrestru â Chynllun Unigolion Cymwys, ni fydd gan yr Awdurdod Lleol gofnod fod y gwaith yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu. Bydd y cofnodion hyn yn bwysig os byddwch yn gwerthu eich cartref, oherwydd efallai gofynnir i chi ddarparu tystysgrifau i ddangos fod y gwaith yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu.


Pam ddylwn i ddefnyddio gosodwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Unigolion Cymwys?

- Mae gosodwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Unigolion Cymwys yn gymwys i wneud mathau penodol o waith yn unol â Rheoliadau Adeiladu, a dylai hysbysu'r awdurdod lleol am y gwaith a rhoi tystysgrif cydymffurfio i chi, naill ai'n uniongyrchol neu trwy law gweithredwr ei gynllun. Os na chewch dystysgrif ymhen 30 diwrnod wedi cwblhau'r gwaith, cysylltwch â gweithredwr y Cynllun Unigolion Cymwys i gadarnhau fod eich gosodwr wedi'i gofrestru â'r cynllun ac efallai gall eich cynorthwyo i ddatrys hyn.
- Os na fyddwch yn defnyddio gosodwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Unigolion Cymwys, bydd rhaid i chi gyflwyno hysbysiad adeiladu neu gais am gynlluniau llawn a thalu i Gorff Rheoli Adeiladu ddod i archwilio'r gwaith a wnaethoch.

Sut alla i ganfod gosodwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Unigolion Cymwys yn fy ardal neu gadarnhau fod y gosodwr a ddewisir gennyf yn aelod o gynllun?

Ewch i www.competentperson.co.uk a nodwch eich cod post neu enw'r gosodwr yn y blwch chwilio perthnasol. Mae manylion cyswllt gweithredwyr Cynlluniau Unigolion Cymwys a'r math o waith y mae bob gweithredwr yn gofalu amdano ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Sut i gyflawni gofynion rheoliadau adeiladu



Gweler isod enghreifftiau o waith y mae'n rhaid i chi hysbysu Corff Rheoli Adeiladu amdano cyn ei gychwyn, a gwaith nad oes rhaid rhoi gwybod amdano. Sylwer nad yw'r rhestrau hyn yn gyflawn a bydd angen rhoi gwybod am fathau eraill o waith hefyd. Os byddwch yn ansicr, cysylltwch â Chorff Rheoli Adeiladu am gyngor.

Rhai enghreifftiau o waith y **MAE** angen i chi hysbysu Corff Rheoli Adeiladu amdano oni byddwch yn defnyddio gosodwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Unigolion Cymwys.

- gosod neu gyfnewid system gwresogi neu foeler newydd, waeth pa fath o danwydd a ddefnyddir
- gosod tanc olew newydd neu gyfnewid yr un presennol
- gosod ystafell ymolchi newydd os addasir y gwaith plymio presennol neu os gosodir gwaith plymio newydd
- gosod systemau aerdymeru sefydlog
- ychwanegu rheiddiaduron at system wresogi bresennol (efallai na fydd angen rhoi gwybod am hyn dan rai amgylchiadau)
- cyfnewid blychau ffiwsiau, unrhyw osodiadau trydanol a gysylltir â'r blwch ffiwsiau ac addasu gosodiadau trydanol mewn ystafelloedd ymolchi o amgylch y baddon neu'r gawod
- cyfnewid ffenestri ac unedau drysau
- cyfnewid gorchuddion ar doeau ar ongl a thoeau fflat

Rhai enghreifftiau o waith **NAD OES** angen i chi hysbysu Corff Rheoli Adeiladu amdanynt ond byddwch yn dal yn gallu defnyddio gosodwr sydd wedi'i gofrestru â Chynllun Unigolion Cymwys.

- y rhan fwyaf o waith atgyweirio, ailosod a chynnal a chadw (ond rhaid rhoi gwybod am gyfnewid offer hylosgi, tanciau olew, blychau ffiwsiau trydanol neu unedau gwydr)
- pwyntiau trydan neu oleuo ychwanegol neu unrhyw addasiadau i gylchedau presennol (ac eithrio o amgylch baddonau a chawodydd)
- cyfnewid baddonau, toiledau, basnau neu sinciau ag unedau tebyg.

Rhestrir isod y mathau o waith y mae Cynlluniau Unigolion Cymwys yn ymwneud â hwy. Mae manylion cyswllt y cynlluniau drosodd.

- Inswleiddio wal geudod: **Benchmark, Certsure, CIGA, NAPIT, STROMA**
- Inswleiddio wal solet: **Benchmark** (yn cynnwys hybrid), **BBA** (yn cynnwys hybrid), **CERTASS, Certsure** (yn cynnwys hybrid), **NAPIT** (yn cynnwys hybrid), **STROMA**
- Gosod offer nwy: **Cofrestr Gas Safe**
- Gosod neu gyfnewid systemau dŵr poeth a gwresogi wedi'u cysylltu ag offer nwy: **APHC, Benchmark, BESCA, CAPITA, Certsure, Cofrestr Gas Safe, HETAS, NAPIT, OFTEC**, a **STROMA**
- Gosod neu gyfnewid boeleri olew, tanciau a systemau dŵr poeth a gwresogi cysylltiedig: **APHC, Benchmark, BESCA, Certsure, HETAS, NAPIT, OFTEC, STROMA**
- Gosod neu gyfnewid llosgyddion tanwydd solet a systemau dŵr poeth a gwresogi cysylltiedig: **APHC, Benchmark** (llosgyddion yn unig), **BESCA, Certsure, HETAS, NAPIT, OFTEC**, (gwresogi a dŵr poeth yn unig), **STROMA** (gwresogi a dŵr poeth yn unig)
- Gosod neu gyfnewid systemau gwresogi neu ddŵr poeth wedi'u cysylltu â ffynhonnell gwres drydanol: **APHC, Benchmark, BESCA, Certsure, HETAS, NAPIT, OFTEC, STROMA**
- Gosod systemau aerdymheru sefydlog neu awyru mecanyddol: **BESCA, Certsure, NAPIT, STROMA**
- Unrhyw waith gosod offer trydanol mewn cartrefi: **Benchmark, BESCA, BSI, Certsure, NAPIT, OFTEC, STROMA**
- Gwaith gosod offer trydan mewn cysylltiad â gwaith arall (e.e. gosod ceginau, gosod boeleri): **APHC, Benchmark, BESCA, Certsure, NAPIT, OFTEC, STROMA**
- Cyfnewid ffenestri, drysau, ffenestri toeau, neu oleuadau toeau mewn cartrefi: **ASSURE, Benchmark, BM TRADA, BSI, CERTASS, Certsure, FENSA, NAPIT, STROMA**
- Gosod systemau plymio a chyflenwi dŵr ac ystafelloedd ymolchi ac offer ymolchfeydd **APHC, Benchmark, BESCA, Certsure, HETAS, NAPIT, STROMA** (ac eithrio cyflenwadau dŵr oer iach)
- Cyfnewid gorchuddion to ar doeau ar ongl a thoeau fflat (heb gynnwys paneli solar): **NAPIT, CompetentRoofer**
- Gosod technolegau microgynhyrchu neu adnewyddadwy: **APHC, Benchmark, BESCA, BRE, BSI, Certsure, HETAS, NAPIT, OFTEC, STROMA**

Mae'r cynlluniau hyn wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r math o waith na pha un ai a yw'r cynllun yn arbenigo mewn delio â math arbennig o waith. Ewch i **www.competentperson.co.uk** i weld a oes aelodau yn eich ardal leol sy'n gwneud y math o waith y mae gennych ddi-ddordeb ynddo.

APHC

www.aphc.co.uk
0121 711 5030

Ardystiad Benchmark

www.benchmark-cert.co.uk
0238 0517 069

BESCA

www.besca.org.uk
0800 652 5533

BM Trada

www.bmtrada.com
01494 569 700

BRE Global (BRE)

www.bre.co.uk
01923 664 100

Bwrdd Agrément Prydain (BBA)

www.bbacerts.co.uk
01923 665 386

BSI

www.kitemark.com
0845 0809 000

Certsure LLP (yn masnachu fel ELECSA)

www.elecsa.co.uk
0333 321 8220

Certsure LLP (yn masnachu fel ELECSA)

www.niceic.com
0870 013 0382

CERTASS

www.certass.co.uk
08450948 025

CIGA

www.cwisc.org
01525 853300

FENSA

www.fensa.co.uk
020 7645 3700

Cofrestr Gas Safe

www.gassaferegister.co.uk
0800 408 5500

HETAS

www.hetas.co.uk
0845 634 5626

NAPIT

www.napit.org.uk
0845 543 0330

Rhwydwaith VEKA (ASSURE)

www.networkveka.co.uk
0800 80 00 80

Töwr Cymwys

www.competentroofer.co.uk
020 7638 7663

OFTEC

www.oftec.org.uk
0845 658 5080

STROMA

www.stroma.com
0845 621 1111

Bydd rhai gosodwyr hefyd yn gwneud gwaith o dan y Fargen Werdd, ac mae rhai ohonynt yn aelodau o gynllun TrustMark neu'r Cynllun Ardystio Microgynhyrchu, sydd oll yn cynnig rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr. Am ragor o fanylion, ewch i: www.gov.uk/green-deal-energy-saving-measures, www.trustmark.org.uk neu www.microgenerationcertification.org

Os dymunwch i Gorff Rheoli Adeiladu eich Awdurdod Lleol wneud eich gwaith rheoli adeiladu, cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol.

Os dymunwch i Arolygydd Cymeradwy wneud eich gwaith rheoli adeiladu, mae rhestr ohonynt ar gael trwy ddilyn y ddolen hon: www.cic.org.uk/services/register.php

Cyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

www.gov.uk/building-regulations-approval